

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

### **COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 3 RHAGFYR 2019**

**Yn bresennol:** Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W Tudor Owen  
(Cadeirydd)

Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.Hughes, D.L.Jones, K.Jones,  
C.Larsen , E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki,  
I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

#### **1. Ymddiheuriadau**

Y Cyngorydd K.Richards

#### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

14.11.2019 'Royal Gun Salute'

25.11.2019 Galeri - gweld ffilm 'The Crown'

#### **3. Datgan Buddiant Personol**

Dim

#### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc).**

##### **(a) Goleuadau Nadolig**

Nododd y Clerc fod sgaffolding mewn rhai rhannau o Gaernarfon yn golygu nad oedd yn bosib i'r cwmni Highline Installation osod goleuadau Nadolig ym mhob man, yn benodol Stryd Twll yn Wal a rhannau o Stryd Bangor.

Nododd y byddai'n syniad da flwyddyn nesaf i drafod efo Cyngor Gwynedd, oedd yn rhoi allan y trwyddedau ar gyfer sgaffaldau, tua mis Hydref er mwyn ceisio atal yr un problemau.

##### **(b) Noson Nadoligaidd, 5ed o Ragfyr**

Gofynnodd y Clerc i bawb oedd ar gael i fod ar y Maes erbyn 5.15 p.m. ar y noson. Nododd hefyd fod rhaglen Heno yn bwriadu ffilmio'r gweithgareddau.

## **5. Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 12fed o Dachwedd 2019

**Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).**

ii. Pwyllgor Adloniant, 26ain o Dachwedd 2019

**Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).**

iii. Pwyllgor Gwaith, 26ain o Dachwedd 2019

**Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).**

## **6. Cyfrifon**

**Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).**

## **7. Cysoni Cyfrifon**

**Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).**

## **8. Praesept**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc ar y Praesept, yn nodi bod angen cyflwyno penderfyniad am y Praesept 2020/21 i Gyngor Gwynedd erbyn yr 24ain o Ionawr 2020. Gan hynny roedd angen ymgynnull cyfarfod arbennig o'r Panel Cyllid a Staffio cyn y Nadolig er mwyn trafod y Praesept, er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Ionawr.

**Penderfynwyd gofyn i'r Clerc drefnu cyfarfod arbennig o'r Panel Cyllid a Staffio ar ddydd Llun, y 16eg o Ragfyr er mwyn trafod y Praesept (unfrydol).**

## **9. Cofnodion Pwyllgor Cyngorau Lleol Mwy**

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Hydref.

**Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).**

## **10. Gweithdy Amrywiaeth mewn Democratiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Ann Hopcyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg o Dachwedd. Rhoddodd grynodedb o drafodaethau'r diwrnod, fel a ganlyn:

(1) Mai amcan y diwrnod oedd ehangu'r amrywiaeth mewn democratiaeth.

- (2) Mai'r mwyaf sy'n cyfrannu i benderfyniadau, y gorau yw'r canlyniad i gymunedau.
- (3) Bod gwaith blaenorol wedi ei wneud ar y maes, a ceisiwyd adnabod rhwystrau i gyfranogiad.
- (4) Y trafodwyd paratoi i fod yn gynghorydd, datblygiad pan yn gynghorydd a diwedd cyfnod fel cynghorydd, yn ogystal â ffocysu ar gyfraniad cynghorwyr ar lefel sirol a chymunedol.
- (5) Y cafwyd trafodaeth ar daliadau, gweithio'n ddiogel a hyblyg yn ogystal ag ar gefnogaeth wedi ei dargedu.
- (6) Y pwysleisiwyd y dylai unrhyw adroddiad amlinellu pethau positif yn ogystal â'r negyddol.

**Penderfynwyd:**

- (1) **Nodi'r uchod (unfrydol).**
- (2) **Cysylltu gyda Llywodraeth y Cynulliad yn mynegi siomedigaeth fod y gwaith papur gwreiddiol ar gyfer y diwrnod yn uniaith Saesneg. Mae hyn yn berthnasol iawn o gofio fod iaith yn rhan hanfodol o amrywiaeth.**
- (3) **Ystyried y pwyntiau canlynol mewn pwyllgorau'r Cyngor Tref:**
  - **Bod angen cyflwyno sylwadau ar gynllun drafft Panel Taliadau Annibynnol Cymru erbyn 10fed Rhagfyr.**
  - **A ddylai pob cynghorydd fod yn derbyn y taliad sydd ar gael?**
  - **A ddylid ystyried GDPR o ran sut mae'r Cyngor Tref yn rhannu gwybodaeth am daliadau i Gynghorwyr?**
  - **Ei bod yn arfer dda i osod dogfennau Panel Taliadau Annibynnol Cymru ar wefan y Cyngor Tref.**
  - **Ffyrdd o rannu gwybodaeth am waith y cyngor.**
  - **Ystyried strategaeth 'myth-busting'.**
  - **Yr angen i ystyried diogelwch cyhoeddi cyfeiriad cartref cynghorwyr.**
  - **Cynnwys Cyngor leuenctid fel rhan o brosiectau perthnasol er enghraifft Parc Coed Helen.**

**11. Cyngor Iechyd Cymuned – Holiadur Cynllunio 2020/21**

Cyflwynwyd Holiadur Cynllunio 2020/21 y Cyngor Iechyd Cymuned.

**Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gwblhau'r holiadur ar ran y Cyngor, gan ofyn iddo ymgorffori gwybodaeth o ran y newidiadau mawr a wnaed ym mis Mawrth eleni i ddarpariaeth Gwasanaethau Fasgwlaidd yn yr ardal, ynghyd â'r sefyllfa o ran fferyllfeydd yng Nghaernarfon (unfrydol).**

**12. Cronfa Nadolig y Maer**

Nododd y Clerc mai'r bwriad oedd cyfrannu at sefydliadau lleol allan o Gronfa'r Maer, yn unol â'r trefniadau arferol, a bod croeso i unrhyw un o'r Cynghorwyr gyfrannu.

**Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).**

### **13. Landerneau / Caernarfon**

Cyflwynwyd gohebiaeth gan Landerneau yn holi beth oedd dyfodol y berthynas rhwng y ddwy dref ac yn mynegi dymuniad i barhau gyda'r berthynas i'r dyfodol.

Nodwyd mai un syniad oedd y gellid gwahodd cynrychiolwyr o Landerneau i ddigwyddiadau yng Nghaernarfon, fel yr Ŵyl Fwyd neu'r Carnifal.

**Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Faer Landerneau yn mynegi dymuniad fod y berthynas rhwng y ddwy dref yn parhau.**
- (2) I gynnal ymchwil i weld faint o ddiddordeb sydd yn y cyfeillio yn lleol, gan gynnwys yn yr ardaloedd lleol sydd tu allan i Gaernarfon.**

### **14. Oriel Gelf i Gaernarfon**

Cyflwynwyd gwybodaeth o ran y bwriad i agor Oriel Gelf yng Nghaernarfon.

Nodwyd, er fod pawb yn gefnogol i weledigaeth Peter Lord, roedd llawer o broblemau i'w goresgyn er enghraifft yr adeilad a sut i ariannu'r cynllun i'r dyfodol.

Nodwyd yr angen o ddenu twristiaeth o ansawdd uchel i Gaernarfon, ac y byddai'r Oriel yn cyfrannu'n fawr tuag at hyn.

Nododd y Clerc fod bwriad i wahodd Peter Lord i gyfarfod pellach yng Nghaernarfon yn y flwyddyn newydd, er mwyn iddo ledaenu ei neges o flaen cynulleidfa ehangach.

**Penderfynwyd cefnogi'r egwyddor o ran sefydlu Oriel Gelf yng Nghaernarfon (unfrydol).**

### **15. Gwasanaethau Fferyllol yng Nghaernarfon**

Cyflwynwyd:

- (i) Llythyr gan Meddygfa Hafan Iechyd.
- (ii) Llythyr gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y Clerc fod y Cyngor Llawn wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod ar y 1af o Hydref:

“Penderfynwyd (yn unfrydol):

- (1) Ysgrifennu at Rowlands, y Fferyllydd ar y Maes yn mynegi pryder am y sefyllfa yno, gan ofyn i gynrychiolydd o'r cwmni ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Tachwedd.
- (2) Ysgrifennu at Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

- (3) Ysgrifennu at y "General Pharmaceutical Council" i fynegi pryder am y sefyllfa o ran fferyllfeydd yng Nghaernarfon.
- (4) Ysgrifennu at Hafan Iechyd yn mynegi pryder, gan ofyn iddynt ailystyried eu trefniadau i roi presgripsiwn i'r rhai oedd yn byw filltir a hanner o Gaernarfon yn unig, gan fod hyn yn disgrimineiddio yn erbyn trigolion y dref. Dylid nodi y dylid rhoi presgripsiwn i'r henoed sy'n byw yn nhref Caernarfon, hyd yn oed os nad oedd neb arall yn cael.
- (5) Ysgrifennu at Weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru.
- (6) Y dylid pwysleisio'r pryder am ddiogelwch y cyhoedd yn yr ohebiaeth a nodir uchod."

Erbyn hyn roedd ymatebion wedi dod i law gan Feddygfa Hafan Iechyd a gan Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd (yn unfrydol):**

- (1) Ddatgan siomedigaeth gydag ymateb Meddygfa Hafan Iechyd.
- (2) Ysgrifennu eto at y "General Pharmaceutical Council" i fynegi pryder am y newidiadau.
- (3) Dilyn i fyny beth ddigwyddodd yn y cyfarfod rhwng Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Fferyllfa Rowlands, a gweld beth yw'r cynllun gweithredu (mae hyn yn cael ei gyfeirio ato yn y llythyr dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru).
- (4) Hysbysu pobl oedrannus Caernarfon eu bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau rhoi presgripsiynau gan eu meddyg teulu os ydynt yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys eu bod yn gallu dangos i'w Bwrdd Iechyd y byddai'n anodd iawn iddynt gael mynediad i fferyllfa gymunedol.

**16. E-bost gan Unllais Cymru**

Cyflwynwyd e-bost gan Unllais Cymru ar Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal - Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

**Penderfynwyd nodi'r cynnwys (unfrydol), ac anfon unrhyw sylwadau i'r Clerc er mwyn iddo fedru ymateb ar ran y Cyngor erbyn yr 17eg o Ionawr 2020.**

**17. Adeilad yr Institiwt**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar Adeilad yr Institiwt.

**(a) Arolwg o'r Adeilad**

Nododd y Clerc, fel cam cychwynnol, ei fod wedi trefnu i Benseiri Siartredig Ap Thomas Cyf. i wneud arolwg o gyflwr Adeilad yr Institiwt.

**Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).**

**(b) Asesiad Risg Tân**

Nododd y Clerc ei fod wedi sylwi nad oedd Asesiad Risg Tân wedi ei wneud ar Adeilad yr Institiwt ers peth amser a'i fod am drefnu i hyn gymryd lle.

**Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).**

**(c) Cath Wylt yn yr Institiwt**

Nododd y Clerc fod y Cyngor wedi penderfynu caniatáu i'r gath wylt fynd ar fenthyciad tymor hir i Adeilad Brambell, a gofyn am adroddiad cryno ar ganlyniad o'r sampl DNA. Erbyn hyn, fodd bynnag, roedd problem ochr Adeilad y Brambell o ran cymryd y gath ar fenthyciad tymor hir, a bod trafodaethau'n parhau. Roedd trafodaethau hefyd ar waith o ran cymryd sampl DNA o'r gath.

**Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).**

**18.Cwestiynau**

Nododd y Cynghorydd E.Hughes fod pobl digartref yn cael eu bwydo ym Mangor ddiwrnod Nadolig, a bod cludiant wedi ei drefnu o Gaernarfon i'r digartref. Roedd GISDA yn gyfrifol am hyn.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.00 p.m.

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....